# Gweithdrefnau Gêm Cash Bolt




**Cyflwyniad**
Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer CASH BOLT (y "Gêm"). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau") a'r Gweithdrefnau hyn yn gymwys. Gellir gweld y Rheolau mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk**.

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

**Manylion y Gêm**
Enw'r Gêm: **"CASH BOLT"**
Rhif y Gêm: **"1204"**
Pris Manwerthu: **£3 am bob Cerdyn Crafu**

Ceir 1 siawns mewn 3.27 o ennill Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 20,098,380 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gychwyn.

**Sut i chwarae ac ennill**
Mae'r Ardal Chwarae yn cynnwys tair adran, un o dan y pennawd 'YOUR SYMBOLS SCRATCH HERE FIRST', ("Adran Eich Symbolau"), a dau grid chwarae (y "Gridiau Chwarae").

Mae pob Grid Chwarae yn cynnwys 16 o sgwariau, ac mae pob sgwâr yn cynnwys Symbol Chwarae. Mae 16 o LINELLAU yn gysylltiedig â'r Gridiau Chwarae sydd wedi'u nodi fel a ganlyn: LINE 1, LINE 2, LINE 3, LINE 4, LINE 5, LINE 6, LINE 7, LINE 8, LINE 9, LINE 10, LINE 11, LINE 12, LINE 13, LINE 14, LINE 15 a LINE 16 (pob un yn "LLINELL"). Ar ochr dde neu ar waelod pob LLINELL mae'r gair PRIZE (y "Blwch Gwobr").

I chwarae'r Gêm, rhaid i chi grafu'r holl haen oddi ar Adran Eich Symbolau yn gyntaf er mwyn datgelu 18 o Symbolau Chwarae ("Eich Symbolau"). Yna, dylech grafu'r haen dim ond oddi ar y Symbolau Chwarae sydd wedi'u cynnwys yn y Gridiau Chwarae sy'n cyfateb i unrhyw un o Eich Symbolau.

Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch yn datgelu 4 Symbol Chwarae mewn llinell lorweddol neu fertigol yn un o'r Gridiau Chwarae sy'n cyfateb i unrhyw un o Eich Symbolau (gweler yr enghreifftiau isod). Bydd y Wobr yn gyfwerth â'r Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr ar y dde neu ar waelod y LLINELL gyfatebol.

**LLORWEDDOL:**

- Rhaid i chi ddatgelu 4 Symbol Chwarae sy'n cyfateb i Eich Symbolau mewn llinell lorweddol ar un o'r Gridiau Chwarae.

**Enghreifftiau**



**FERTIGOL:**
- Rhaid i chi ddatgelu 4 Symbol Chwarae sy'n cyfateb i Eich Symbolau mewn llinell fertigol ar un o'r Gridiau Chwarae.

**Enghreifftiau**



Mae'n bosibl cael hyd at dair LLINELL fuddugol ar un Grid Chwarae.

Gall Chwaraewyr ennill hyd at 6 gwaith ar Gerdyn Crafu.

16+

**GP GM1204**
Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT. Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY
YOUR NUMBERS MAKE AMAZING HAPPEN

Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae | | | | | | |
| Penawdau Chwarae | LEMON | MSTCH | POUND | -BOLT | HEART | DIAMND |
| Symbolau Chwarae | | | | | | |
| Penawdau Chwarae | GRAPES | -MOON | CRSFNG | -STAR | RAINBW | APPLE |
| Symbolau Chwarae | | VIP | | 7 | | |
| Penawdau Chwarae | GLDBAR | -VIP- | STACK | SEVEN | -GEM- | CLOVER |
| Symbolau Chwarae | | | | | | |
| Penawdau Chwarae | -WAD- | GLBALL | -SAFE | -BULB | CHEST | CROWN |
| Symbolau Chwarae | | | | | | |
| Penawdau Chwarae | CACTUS | SGLASS | CLOUD | MNYBAG | | |

Bydd 18 o Symbolau Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan haen Adran Eich Symbolau. Dim ond un Pennawd Chwarae sy'n ymddangos o dan bob Symbol Chwarae.

Bydd 16 o Symbolau Chwarae yn ymddangos o dan haen pob Grid Chwarae. Dim ond un Pennawd Chwarae sy'n ymddangos o dan bob Symbol Chwarae. Dim ond y Symbolau Chwarae a'r Penawdau Chwarae y gellir eu defnyddio i chwarae'r Gêm.

Symbolau Gwobr a Phenawdau Gwobr

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Gwobr | £3.00 | £5.00 | £6.00 | £10.00 | £20.00 | £25.00 |
| Penawdau Gwobr | THREE | -FIVE | -SIX- | -TEN- | TWNTY | TWFIV |
| Symbolau Gwobr | £50.00 | £100 | £250 | £1,000 | £10,000 | £300K |
| Penawdau Gwobr | FIFTY | -HUND | TWHFY | -THOU | TNTHO | TRHTH |

Bydd un Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol yn ymddangos o dan haen y Blwch Gwobr mewn LLINELL yn y Gridiau Chwarae. Dim ond un Pennawd Gwobr sy'n ymddangos o dan bob Symbol Gwobr. Dim ond y Symbol Gwobr a'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen Blwch Gwobr y gellir eu defnyddio i gadarnhau swm y Wobr y gallech ei hawlio, os o gwbl, mewn perthynas â LLINELL.

Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd

| Y Gwobrau | | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm |
|---|---|---|---|
| £3 | | 2,411,909 | 9 |
| £5 | | 1,607,767 | 13 |
| £6 | | 401,981 | 50 |
| £6 | £3 x 2 | 401,901 | 51 |
| £10 | | 401,912 | 51 |
| £10 | £5 x 2 | 401,945 | 50 |
| £20 | | 134,021 | 150 |
| £20 | (£5 x 2) + £10 | 67,008 | 300 |
| £20 | £10 x 2 | 66,994 | 300 |
| £20 | £5 x 4 | 134,010 | 150 |
| £25 | | 20,270 | 992 |
| £25 | £5 + (£10 x 2) | 25,170 | 799 |
| £25 | (£5 x 3) + £10 | 16,760 | 1,200 |
| £25 | £5 x 5 | 25,117 | 801 |
| £50 | | 2,334 | 8,612 |
| £50 | £25 x 2 | 2,342 | 8,582 |
| £50 | (£6 x 5) + £20 | 2,523 | 7,967 |
| £50 | (£10 x 3) + £20 | 2,665 | 7,542 |
| £50 | (£5 x 5) + £25 | 3,350 | 6,000 |
| £50 | £10 x 5 | 5,051 | 3,980 |
| £100 | | 332 | 60,538 |
| £100 | £50 x 2 | 334 | 60,175 |
| £100 | £25 x 4 | 500 | 40,197 |
| £100 | £20 x 5 | 505 | 39,799 |
| £100 | £10 + (£20 x 2) + £50 | 510 | 39,409 |
| £100 | (£10 x 3) + £20 + £50 | 506 | 39,721 |
| £100 | (£5 x 2) + (£10 x 2) + £20 + £50 | 330 | 60,905 |
| £100 | (£10 x 2) + (£20 x 4) | 504 | 39,878 |
| £100 | (£10 x 5) + £50 | 499 | 40,278 |
| £250 | | 164 | 122,552 |
| £1,000 | | 6 | 3,349,730 |
| £1,000 | £250 x 4 | 8 | 2,512,298 |
| £10,000 | | 7 | 2,871,198 |
| £300,000 | | 4 | 5,024,595 |

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei dilysu, caniateir i Fanwerthwyr barhau i werthu'r Cardiau Crafu hynny sydd eisoes wedi'u hactifadu i'w gwerthu a chaiff unrhyw Gardiau Crafu nad ydynt wedi'u hactifadu eu tynnu'n ôl. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i **national-lottery.co.uk** neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd y galwadau'n costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

16+

**GP GM1204**
Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY
YOUR NUMBERS MAKE AMAZING HAPPEN

Gwerth Gwobrau yn Y Gêm

Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm yn cynrychioli 68.00% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £60,295,140 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifiadurol Camelot ac yr hysbyswyd y Comisiwn Hapchwarae ohonynt yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, neu dynnu Cardiau Crafu yn ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu yn ôl gan Camelot heb yn wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau).

Cyffredinol

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Gweithdrefnau hyn ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Camelot o ran y Gêm hon, y Gweithdrefnau hyn fydd drechaf.

16+

**GP GM1204**
Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY
YOUR NUMBERS MAKE AMAZING HAPPEN